Cyfoeth Naturiol Cymru
Natural Resources Wales

Parc Coedwig
# Coed y Brenin
Forest Park

# Gardd y Goedwig | Forest Garden

## Croeso i Barc Coedwig Coed y Brenin

**Mae Parc Coedwig Coed y Brenin yn ymestyn dros tua 9,000 o erwau yn nyffrynnoedd Mawddach, Eden, Cain a Gwen. Mae'r Rhinogydd i'r gorllewin ac unigeddau gwyllt Rhobell Fawr i'r dwyrain.**

Roedd hon unwaith yn rhan o Ystad Nannau, a sefydlwyd gan Gadwgan, Tywysog Powys, yn 1100 O.C. Prynwyd y tir gan y Comisiwn Coedwigaeth ym 1922, ac erbyn hyn mae Comisiwn Coedwigaeth Cymru yn gwarchod y goedwig ar gyfer pobl, bywyd gwyllt a chynhyrchu coed. Gwnaed Coed y Brenin yn Barc Coedwig yn ystod y 1990au gan ei fod yn cynnig cyfleoedd ardderchog ar gyfer cerdded a hamdden.

Ewch ar hyd ein llwybrau, sydd wedi'u marcio, a byddwch yn darganfod afonydd, rhaeadrau, coetiroedd a choed enfawr Coed y Brenin ac yn blasu hanes a diwylliant yr ardal. Os ydych yn ymweld â Choed y Brenin am y tro cyntaf, mae'n rhaid i chi alw heibio i'n canolfan ymwelwyr 'werdd' gyda'i chyfleusterau diweddaraf un, a gweld y golygfeydd coediog a mynyddig o falconi ein caffi ni.

## Welcome to Coed y Brenin Forest Park

**Coed y Brenin Forest Park covers an area of some 9,000 acres around the valleys of the rivers Mawddach, Eden, Gain and Wen. The rugged Rhinog Mountains lie to the west and the wild and lonely Rhobell Fawr to the East.**

This was once part of the historic Nannau Estate, founded by Cadougan, Prince of Powys in 1100 A.D. The Forestry Commission bought it in 1922, and today Natural Resources Wales looks after the forest for people, wildlife and timber production. We made Coed y Brenin a Forest Park in the 1990's because of its outstanding walking and recreational opportunities.

Try our waymarked trails for a taste of the area's history and culture. Enjoy the sound of rivers and waterfalls and the majestic presence of huge Douglas fir trees. If this is your first visit, call in at our state-of-the-art 'green' visitor centre. and contemplate the forest and mountain views from our cafe balcony.

Prynwch **BECYN LLWYBRAU CERDDED** Coed y Brenin o'r ganolfan ymwelwyr

Buy a Coed y Brenin **WALKS PACK** from the visitor centre

## Parc Coedwig **Coed y Brenin** Forest Park




Mae'r parc coedwig yn safle o ddefnydd cymysg, byddwch yn ymwybodol fod yna bosibilrwydd y dewch ar draws cerddwyr, cŵn, beiciau mynydd, ceffylau neu gerbydau ar unrhyw adeg.

The forest park is a mixed-use site, please be aware that you may come across walkers, dogs, mountain bikes, horses or vehicles at any time.

Atgynhyrchir y map hwn o ddeunydd yr Arolwg Ordnans gyda chaniatâd Arolwg Ordnans ar ran Rheolwr Llyfrfa Ei Mawrhydi. © Hawlfraint y Goron a hawliau cronfa ddata 2015 Arolwg Ordnans 100019741. 2015

## Llwybrau Gardd y Goedwig | Forest Garden Trails

### Llwybr Darganfod | Discovery Trail

Dilynwch yr arwyddion gwyrdd

Follow the green waymarker symbol

| Hawdd | Easy |
|---|---|
| Pellter: ¾ milltir/1.2km | Distance: ¾ miles/1.2km |
| Amser: 45 munud | Time: 45 minutes |
| Dringo: 70tr/20m | Climb: 70ft/20m |

UCHAFBWYNTIAU:
**Cewch weld coed o bob rhan o'r byd a dysgu ffeithiau diddorol amdanynt.**

**DISGRIFIAD:** Dilynwch yr arwyddion gwyrdd dros yr *Afon Babi* (yma, yn ôl traddodiad lleol, cipiodd y tylwyth teg faban ffermwr lleol a gadael un o'u babanod eu hunain yn ei le). Mae cyfres o lwybrau ffurfiol ac anffurfiol yn groesymgroes drwy'r ardd, rhai ohonynt yn serth ac anwastad, ond nid oes yma unrhyw risiau na chamfeydd. Dilynwch ein pyst ffeithiau-am-goed diddorol os dymunwch.

HIGHLIGHTS:
**Experience trees from around the world and discover fascinating facts about them.**

**DESCRIPTION:** Follow the green waymarkers over the *Afon Babi – river of the baby* (where local folklore says a fairy baby was exchanged for a local farmers child). The garden is criss-crossed with a series of formal and informal tracks, some steep and uneven, but there are no steps or stiles. Follow our special *fascinating-tree-facts* posts for a suggested route.

### Llwybr Hygyrch Ewig | Ewig Accessible Trail

Dilynwch yr arwyddion glas

Follow the blue waymarker symbol

| Hawdd | Easy |
|---|---|
| Pellter: ¼ milltir/350m | Distance: ¼ mile/350m |
| Amser: 20 munud | Time: 20 minutes |
| Graddiant mwyaf: 10% | Max gradient: 10% |

UCHAFBWYNTIAU:
**Yma, gallwch glywed stori Pont Llam yr Ewig drwy ddefnyddio ein blwch weindio arbennig.**

**DISGRIFIAD:** Mae gennym faes parcio i'r anabl yn unig yn ôl i gyfeiriad y bont o lwybr hygyrch Ewig. Mae'r llwybr hwn yn croesi'r bont ac yn dilyn yr afon trwy ran isaf Gardd y Goedwig i olygfan sy'n edrych dros y rhaeadr. Mae'r llwybr wedi'i adeiladu'n ôl safonau 'Cefn Gwlad i Bawb' gyda graddiant rhwydd (10% / 1 mewn 10 ar y mwyaf), ac mae'n addas i ddefnyddwyr cadeiriau olwyn.

HIGHLIGHTS:
**Here you can hear the story of Pont Llam yr Ewig – Bridge of the Deer's Leap, using our special wind-up box.**

**DESCRIPTION:** We have a disabled-only car park back towards the bridge for the Ewig accessible trail. This trail crosses the bridge and follows the river through the lower part of the Forest Garden to a viewpoint overlooking the waterfall. The trail is built to 'Countryside for All' standards with an easy gradient (max 10% / 1 in 10) and is suitable for wheelchair users.




0 Cilomedr Kilometre 0.5
0 Milltir ½ Mile

This map is based upon Ordnance Survey material with the permission of Ordnance Survey on behalf of the controller of Her Majesty's Stationary Office © Crown copyright and database rights 2015 Ordnance Survey 100019741. 2015

## Croeso i Ardd y Goedwig

Croeso i Ardd y Goedwig Coed y Brenin. Cewch weld coed o bob rhan o'r byd a dysgu ffeithiau diddorol amdanynt. Bydd yr holl deulu wrth eu bodd yn darganfod y paneli 'cyfrinachol' sydd ynghudd yn ein pyst arbennig. Mae rhai o'r coed yn enfawr ac mae'r rhai llai yn ychwanegiadau newydd.

## Welcome to Forest Garden

Welcome to Coed y Brenin's Forest Garden. Discover trees from around the world and some fascinating facts about them. All the family will enjoy finding the 'secret' panels hidden in our special posts. Some of the trees are huge and the smaller ones are recent additions.




LAWRLWYTHWCH EIN **HAPIAU DI-DÂL** ar gyfer Android ac iPhone

DOWNLOAD OUR **FREE APPS** for Android and iPhone

CYMRU | WALES **PlacesToGo®**

I ganfod lleoedd eraill ardderchog CNC y gellir ymweld â hwy yng Nghymru.

To find other great NRW places to visit in Wales.

CYMRU | WALES **PlaceTales®**

I ganfod nodweddion hynod ddifyr yng nghoedwigoedd CNC a Gwarchodfeydd Natur Cenedlaethol.

To discover fascinating features in NRW forests and National Nature Reserves.

Owain Glyndŵr
Dilynwch y stori
Follow the story

www.cyfoethnaturiolcymru.gov.uk
www.naturalresourceswales.gov.uk

parcio / parking · gwybodaeth / information · mynediad rhwydd / easy access · parcio mynediad hawdd / easy access parking · toiledau / toilets · llwybrau - mynediad rhwydd / easy access trails · ffôn / telephone · caffi / café · lle picnic / picnic area · maes chwarae / play area · BBQ barbeciw / barbecue · golygfan / viewpoint

Coed y Brenin

Noddir gan Lywodraeth Cymru
Sponsored by Welsh Government